Crynodeb 60 eiliad

# Cyfraith cystadleuaeth: cyngor i archwilwyr mewnol

Os bydd cyngor lleol yn cysylltu â chi ynghylch ymuno â chynllun i gyfyngu ar gyflenwi alcohol cryfder uchel yn eich ardal leol, dylech fod yn ofalus i osgoi'r risg o dorri cyfraith cystadleuaeth.

## Pam fod angen i mi wybod am gyfraith cystadleuaeth?

Pan fydd busnesau yn cyfyngu ar sut maent yn cystadlu â'i gilydd, mae yna berygl y byddant yn torri cyfraith cystadleuaeth a gall olygu cosbau sylweddol. Mae archwilwyr mewnol mewn sefyllfa dda i sylwi os gallai busnes fod yn ymddwyn mewn ffordd wrth gystadleuol a gall chwarae rhan allweddol o ran sicrhau byrddau bod ganddynt y systemau a phrosesau addas ar waith i reoli risgiau o'r fath.

## Beth ddylwn i gadw llygad amdano?

Mae'r CMA wedi cyhoeddi canllaw cryno ar risg cyfraith cystadleuaeth yn cyflwyno arferion gwrth gystadleuaeth i fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r canllaw'n awgrymu cwestiynau i helpu nodi ble gallai'ch busnes fod dan risg, megis:

- A yw cyflogeion yn aml yn sgwrsio gyda busnesau eraill yn yr un sector?
- A ydych chi byth yn cydweithio neu weithio mewn partneriaeth gyda'ch cystadleuwyr?
- A yw'ch cwsmeriaid hefyd yn gystadleuwyr i chi?
- A ydych chi'n fusnes gyda chyfran fawr o'r farchnad yr ydych yn gweithredu ynddi?

## Beth all archwilwyr mewnol wneud?

Mae nodi ble a sut allai'ch busnes dorri cyfraith cystadleuaeth yn gam allweddol tuag at strategaeth gydymffurfio effeithiol:

- Cynnwys cyfraith cystadleuaeth yn eich bydysawd risg a darparu sicrwydd fod rheoliadau mewnol yn gweithio'n effeithiol.
- Nodi ble nad yw diwylliant sefydliad wedi ei ddiffinio'n glir parthed ymddygiadau gwrth gystadleuol.
- Tynnu sylw at risgiau cyfraith cystadleuaeth i aelodau'r bwrdd a'r gweithredwyr fel eu bod yn deall y goblygiadau.
- Bod yn ymwybodol o'r camau y gall busnes eu cymryd os yw wedi torri cyfraith cystadleuaeth, megis rhaglen drugaredd y CMA. Os bodlonir amodau penodol, gallai busnes dderbyn imiwnedd rhag dirwyon a chosbau.

**Gall Archwilwyr Mewnol chwarae rôl allweddol o ran helpu busnesau i ddeall a rheoli eu risgiau parthed diffyg cydymffurfiad â chyfraith cystadleuaeth**




## Beth yw goblygiadau torri'r gyfraith?

Gall busnesau sy'n torri cyfraith cystadleuaeth wynebu dirwy o hyd at 10 y cant o'u trosiant byd eang a chael eu datgymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwyr cwmni am hyd at 15 mlynedd.

Mae bod yn rhan o gartél hefyd yn dramgwydd troseddol – gall unigolion fynd i'r carchar am hyd at 5 mlynedd.

Am ragor o wybodaeth ar gyfraith cystadleuaeth a sut i gydymffurfio: www.gov.uk/cma

I drafod a gofyn am drugaredd: Ff: 020 3738 6833

**Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly.**